

RHONDDA CYNON TAF COUNTY BOROUGH COUNCIL

Cofnodion o Gyfarfod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a gynhaliwyd yn Swyddfeydd Cyngor y Fwrdeistref Sirol, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, brynhawn Mercher, 19 Gorffennaf 2017 am 5pm

PRESENNOL

Y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol S.Powderhill - Dirprwy Maer

Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol;

L.M.Adams	A.S.Fox	W.Owen
D.R.Bevan	H.Fychan	D.Owen-Jones
H.Boggis	E.George	S.Pickering
J.Bonetto	D.Grehan	M.J.Powell
S.A.Bradwick	M.Griffiths	S.M.Powell
J.Brencher	J.Harries	S.Rees
A.Calvert	G.Holmes	A.Roberts
G.Caple	G.E.Hopkins	J.Rosser
A.Chapman	P.Howe	R.W.Smith
A.G.Cox	G.W.Hughes	G.Stacey
A.Crimmings	J.James	E.Stephens
J.L.Cullwick	G.Jones	G.P.Thomas
G.R.Davies	K.L.Jones	W.Treeby
J.R.Davies	L.Jones	R.K.Turner
A.Davies-Jones	W.Jones	M.O.Weaver
L.De Vet	R.Lewis	M.Webber
M.Diamond	W.Lewis	G.D.G.Williams
J.Elliott	C.Leyshon	D.H.Williams
S.M.Evans	D.Macey	J.Williams
S.M.Evans-Fear	A.Morgan	C.J.Willis
M.Fidler Jones	S.Morgans	R.Yeo
	M.A.Norris	

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr.C.Bradshaw - Prif Weithredwr

Mr C. Lee – Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen
Gio Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i
Blant

Andy Wilkins - Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol a Llywodraethol

Mr T. Wilkins – Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol

Mr.C.Hanagan - Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus

Mr.P.Griffiths - Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Cyflawniad a Gwelliant

Ms.K.May - Pennaeth y Gwasanaethau Llywodraethol

30 CADEIRYDD

Yn absenoldeb y Maer, Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol M.Tegg, y Dirprwy Maer, Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol S.Powderhill oedd yn y Gadair.

31 YMDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol M.Forey, L.Hooper, P.Jarman, K.Morgan, S.Rees-Owen, M.Tegg, L.Walker, E.Webster a T.Williams.

32 DATGAN BUDDIANT

PENDERFYNWYD – nodi, yn unol â Chod Ymddygiad Aelodau, i Gyngorydd Bwrdeistref Sirol G.R.Davies ddatgan buddiant personol mewn perthynas â'r materion canlynol:

- (1) Eitem 7 ar yr Agenda - Adroddiad ar Gyflawniad Corfforaethol y Cyngor (Drafft) - "Mae yna gyfeiriad yn yr adroddiad at wasanaethau camdefnyddio sylweddau ac rwy'n goruchwyllo'r fath wasanaethau".
- (2) Eitem 10 ar yr Agenda - Rhybudd o Gynnig - "Yr wyf yn gwerthu'r eitemau sy'n cael eu cyfeirio atynt".

33 CYHOEDDIADAU

- (1) Hysbysodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus bod y gwaith angenrheidiol wedi ei wneud i sicrhau bod yr offer cyfieithu a system ddolen bellach yn gweithio. Cafodd yr aelodau a oedd yn bresennol ac oedd am ddefnyddio'r dyfeisiau i gysylltu â'r system ddolen gyfarwyddiadau ar sut i'w defnyddio.
- (2) Diolchodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol G.E.Hopkins, Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymuned i Oedolion a Phlant i'r rhai a fynychodd Parti Ponti a gynhaliwyd ym Mharc Coffa Ynysyngharad, Pontypridd ar ddydd Sadwrn, 15 Gorffennaf 2017. Roedd hefyd am gofnodi ei ddiolch i Fenter laith a drefnodd yr ŵyl Gymraeg flynyddol.
- (3) Cyhoeddodd y Fwrdeistref Sirol S.Pickering bod tocynnau raffl yn cael eu gwerthu i helpu i godi arian ar gyfer o'r Ynys-y-bwl sy'n cael ei chynnal ym mis Awst.

34 DEISEBAU

Cafodd y ddwy ddeiseb ganlynol eu cyflwyno i'r Dirprwy Faer gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A.Chapman ar ran trigolion Treorci: -

- (1) O ran y toiledau cyhoeddus gyferbyn â Llyfrgell Treorci - "mae cyflwr y toiledau wedi bod yn broblem ers peth amser, ac er bod materion

glendid yn cael eu sythu yn gyflyn, mae materion strwythurol hefyd i'w hystyried".

- (2) O ran y tir i'r dde o Theatr y Parc a'r Dâr, Treorci - "i'w ddefnyddio fel man gorffwys / gardd gymunedol gyda photiau ac ati, gyda thri o feinciau parc wedi'u derbyn yn rhoddion yn barod".

35 COFNODION

PENDERFYNWYD - cymeradwyo cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd ar 21 Mehefin 2017, yn amodol ar gwestiwn atodol yn cael ei godi (Cofnod rhif 26 (a)) yn darllen "A yw'n bosibl cael parthau 20 mya y tu allan i bob ysgol yn Rhondda Cynon Taf, yn enwedig ar y prif ffyrdd A?"

36 CWESTIYNAU GAN Y CYNGHORWYR

- (a) **Cwestiwn Gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol D.Grehan i Arweinydd y Cyngor (Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan).**

"A wnewch chi ddatganiad ar seilwaith y priffyrdd yn Nhonyrefail?"

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan

"Byddwch yn gwybod ein bod ni'n edrych i ddatblygu capasiti'r A4119 ac yn ddiweddar, cyflwynon ni gynigion a fydd yn mynd gerbron y Cyngor a'r Cabinet o ran ddeuoli'r A4119 hyd at Goed-elai ac i lawr hyd at yr M4. Bydd Parcio a Theithio hefyd yn cael effaith ar y seilwaith, nid yn unig ar Donyrefail. Rydym ar hyn o bryd mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru a gobeithio bydd pecyn o welliannau yn dod gerbron".

Cwestiwn ategol gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol D.Grehan

"Diolch am yr wybodaeth parthed yr A4119, yr wyf yn falch bod cynlluniau yn datblygu yn yr ardal yma, nid dim ond er budd pobl Tonyrefail ond i bawb sy'n teithio i Donysguboriau neu i Gaerdydd, gan ei fod yn berthnasol i bawb.

Problem sy'n wir berthnasol i bob ardal ydy ble i barcio ein ceir? Mae dau, tri neu hyd yn oed pedwar car yn perthyn i gartrefi heddiw ac mae'r strydoedd teras yn gwegian. Dyma broblem ledled Rhondda Cynon Taf. Rwy'n gobeithio y bydd y Cyngor yn rhagweithiol wrth fynd i'r afael â'r broblem gynyddol hon. Un ateb posibl fyddai tynnu'r llinellau melyn dwbl sydd bellach ar un ochr nifer o ffyrdd, a chreu systemau unffordd, ac felly yn gadael y ddwy ochr yn rhydd ar gyfer parcio. Byddai Pretoria Road yn Nhonyrefail yn sicr o elwa. A fyddai'r Cyngor, yn y tymor hir, yn barod i edrych ar agor pen uchaf y Stryd Fawr er mwyn hwyluso hyn? Yn y tymor byr, mae yna fater llawer pwysicach; Mae'r ysgol Gymraeg yn cael ei symud o Stryd yr Ysgol i Martins Crescent, ac, fel y gwyddoch, bydd bron i hanner y plant yn teithio ar fws, ond dyw bysiau ddim yn gallu teithio ar hyd Martins Crescent. Oes gan y Cyngor gynllun ar waith i sicrhau bod plant yn cael eu gollwng a'u codi'n ddiogel yn yr ysgol newydd?

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan

"Cafodd y llinellau melyn presennol eu hadolygu tua 4 - 5 mlynedd yn ôl. Dyw llinellau melyn ddim yn cael eu gosod ar hap. Cafodd rhai llinellau eu dileu, ond mae'r mwyafrif helaeth yn parhau i fod ar waith gan eu bod dal yn angenrheidiol. Fyddwn i ddim yn argymhell cael gwared ar linellau melyn ad hoc. Fyddwn i ddim yn cefnogi systemau unffordd gan fod damweiniau a gwrthdrawiadau yn cynyddu yn enwedig os nad oes mesurau arafu traffig ar waith. Cydnabyddir fod pobl yn tueddu gyrru'n gyflymach ar hyd sytemau unffordd, felly pe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen, byddai rhaid iddo ystyried gosod twmpathau ffordd ac ati ynghyd ag ymgynghori â'r Gwasanaeth Ambiwlans a'r Heddlu a fyddai'n gofyn am Orchmynion Traffig. O dan y Rhaglen Gyfalaf, rydyn ni'n cyflwyno ceisiadau i Lywodraeth Cymru, sy'n cael eu cyflwyno ar sail blaenoriaeth ac yn broses barhaus.

Byddai o gymorth pe bai'r Aelodau yn ennill gwell dealltwriaeth o'r Rhaglen Gyfalaf, yn enwedig mewn perthynas â materion priffyrdd ac efallai y gallai swyddogion wneud cyflwyniad cyn cyfarfod o'r Cyngor yn y dyfodol, ac er bod nifer o ddigwyddiadau hyfforddiant ar hyn o bryd cyn cyfarfodydd o'r Cyngor, byddai'n ddefnyddiol i Aelodau ".

(a) Gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol J.Brencher i Arweinydd y Cyngor (Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan).

"Wnaiff yr Arweinydd roi datganiad ynglŷn ag ailddatblygu safle hen Ganolfan Siopa Dyffryn Taf / Taff Vale?"

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan

"Ers 2015 pan brynwyd y brydles, mae cynnydd wedi'i wneud. Does dim modd gweld cynnydd ffisegol, ond mae llawer iawn o waith yn mynd ymlaen yn y cefndir. Mae'r contract wedi'i ddyfarnu i Willmot Dixon a bydd y gwaith adeiladu yn ddechrau ar y safle yn gynnar yn 2018 ac yn dod i ben yn 2019. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol y bydd Trafnidiaeth Cymru, a darparwyr y Metro newydd, yn dod i Bontypridd a symud y pencadlys i'r safle. Bydd mwy na 1,000 o bobl yn gweithio yn y safle newydd ac felly bydd cynnydd yn nifer y bobl yn y dre i gefnogi'r economi leol. Mae tri adeilad arfaethedig ar y cynllun, a fydd yn cynnwys llyfrgell ganolog, Canolfan IBobUn a champfa gyda nifer o ystafelloedd hyfforddi.

Cwestiwn Ategol gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol J.Brencher

"Mae'n amlwg bod prynu safle ac ymyriad uniongyrchol y Cyngor yn hwb oedd ei angen a rhywbeth oedd pobl Pontypridd am ei weld. Diolch yn fawr. A allech ddweud wrthym am unrhyw gynlluniau ychwanegol sy gyda'r Cyngor i barhau â'r dull rhagweithiol yma? "

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan

Rydyn ni'n edrych nifer o feysydd, ond mae rhai na allwn ddatgelu oherwydd sensitifrwydd masnachol.

Mae benthyciad gan Lywodraeth Cymru wedi'i sicrhau i ailddatblygu hen adeilad Marks & Spencer i ddarparu unedau ofod manwerthu a thai newydd. Mae siopau cadwyn cenedlaethol hefyd wedi dangos diddordeb i symud i'r safle. Yn amodol ar gymeradwyaeth, megis cynllunio, mae cynlluniau pellach ar gyfer Pontypridd yn cael eu cynnig dros yr ychydig fisoedd nesaf ".

(c) Cwestiwn gan y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol R. Yeo i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Ffyniant a Lles (y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol R.Lewis)

"Wnaiff yr Aelod Cabinet roi'r diweddaraf ar gamau rhagweithiol diweddar y Cabinet i fynd i'r afael â'r broblem baw cŵn yn Rhondda Cynon Taf?"

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol R.Lewis

"Roedd cŵn yn baeddu yn thema aml yn ystod yr etholiadau diweddar. Mae'r Cabinet wedi cytuno i gyflwyno Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus (Rheoli Cŵn) o 1 Hydref 2017 ledled RhCT. Bydd y Garfan Gorfodi yn cael ei gynyddu i ddeg swyddog ac os bydd trigolion ddim yn cydymffurfio â'r Gorchymyn, efallai bydd dirwy o £100 yn cael ei chodi. Bydd hi'n ofynnol i berson sy'n gyfrifol am gi gario bagiau i gael gwared ar faw cŵn, ar bob adeg.

Mae llawer o gefnogaeth gyhoeddus ar gyfer y mesurau hyn ac yn ystod y cyfnod ymgynghori, cytunodd 98% y dylai cŵn gael eu cadw ar dennyn mewn parciau chwarae ayb a 100% yn cytuno bod yn rhaid i berchnogion cŵn gario rhywbeth addas i gael gwared ar faw ci. Mae'r Cabinet yn hyderus bydd y Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus (Rheoli Cŵn) yn rhwystr arf ataliol o ran perchnogion cŵn."

Cwestiwn Ategol gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol R.Yeo

"A fydddech yn cytuno i ymddangos gerbron y Pwyllgor Craffu perthnasol i roi'r diweddaraf yn dilyn cyflwyno'r Gorchymyn? "

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol R.Lewis

"Byddaf, wrth gwrs, yn fwy na hapus i fod yn bresennol gyda Swyddogion i roi diweddariad ar y cynnydd, gan gydnabod pwysigrwydd y broses graffu yng ngweinyddiaeth y Cyngor hwn, yn dilyn dechrau gweithredu'r Gorchymyn ar 1 Hydref 2017 ".

(d) Cwestiwn gan y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol G.Hughes i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu, a Thai (y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol D.R.Bevan)

"Sut mae'r Cyngor yn ceisio cefnogi canol ein trefi lleol?"

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol D.R.Bevan

"Mae'r Awdurdod hwn yn parhau'n ymrwymedig i gefnogi canol ein trefi a chydabod y rôl hanfodol y maent yn ei chwarae i'n trigolion

Mae canol ein trefi yn wynebu llawer o heriau megis siopau y tu allan i'r dref a siopa ar-lein. Fodd bynnag, mae rhai grantiau sy'n gallu rhoi hwb i'r gweithgaredd yn ein canol trefi megis y cynllun rhyddhad ardrethi drwy Lywodraeth Cymru a grant cynhaliaeth bach sy'n cynorthwyo manwerthwyr i gadw blaen siopau yn edrych yn drwsiadus. Hefyd yn edrych ar osod WiFi a chostau parcio rhesymol.

Rwy'n croesawu cynllun BuddsoddiRhCT a fydd o fudd i nifer o feysydd ac rwy'n edrych ymlaen at weld y cynllun hwnnw ar waith.

Cwestiwn ategol gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol G.Hughes

"Rwy'n falch clywed am y cynnydd o ran y grantiau cynnal a chadw. Oes modd i chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i drigolion Tonypanyd ar welliannau i ganol tref Tonypanyd? "

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol D.R.Bevan

"Drwy'r rhaglen Gwneud Defnydd Gwell, rydyn ni wedi derbyn peth arian yn ddiweddar er mwyn sicrhau bod y rhwydwaith priffyrdd yng nghanol y dref yn darparu mynediad da a diogel sy'n cynnwys gwelliannau i Stryd Dunraven ac uwchraddio'r orsaf fysiau; mewn ymdrech i gefnogi ein strydoedd mawr lleol".

(e) Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol H.Fychan i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu a Thai (Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol D.R.Bevan)

"A wnaiff yr Aelod o'r Cabinet roi'r diweddaraf yngŷn â'r cynlluniau adfywio ar gyfer Canol Tref Pontypridd?"

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol D.R.Bevan

"Mae'r Weinyddiaeth yn parhau i chwarae rhan bwysig wrth ddatblygu Pontypridd. Crybwyllodd yr Arweinydd ddatblygiad hen ganolfan Bro Taf / Taff Vale a'r effaith gadarnhaol y bydd hyn yn ei gael ar economi'r dref. Dw i'n edrych ymlaen hefyd at brosiect y Fargen Ddinesig yn cael ei weithredu ynghyd ag ail-agor safle Marks & Spencer i fasnachwyr eraill ac mae'r gweithredoedd hyn yn dangos ein hymrwymiad i'r dref".

Cwestiwn ategol gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol H.Fychan

"Rydym eisoes wedi clywed am ddatblygiad Taff Vale gan yr Arweinydd. Sut bydd y datblygiadau hyn yn cyfuno, e.e. Canolfan Siopa Taff Vale, y ganolfan hamdden a'r YMCA. Faint o swyddi newydd go iawn sy'n mynd i gael eu creu? Mae pobl yn poeni ein bod ni'n mynd i weld mwy o swyddfeydd gwag.

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol D.R.Bevan

"Mae hwn yn gwestiwn pêl grisial. Rydym mewn trafodaethau gyda buddsoddwyr posibl ac mae nifer y swyddi yn swm anhysbys. Rydyn ni'n tynnu pethau at ei gilydd nawr. Mae Pontypridd wedi symud ymlaen ac rydyn ni'n gweld hynny yn y twf yn nifer yr ymwelwyr. Bydd nifer sylweddol o swyddi

yn dod i'r ardal a bydd yn cynyddu cyflogaeth, yn ogystal â mynd i'r afael â'r mater eiddo gwag rydych chi wedi'i godi".

ADRODDIADAU'R PRIF WEITHREDWR

37 ADRODDIAD AR GYFLAWNIAD CORFFORAETHOL Y CYNGOR AR GYFER 2017/18 (DRAFFT)

Atododd y Prif Weithredwr ei adroddiad wrth Atodiad 1, Adroddiad ar Gyflawniad Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2017/18 (Drafft), a gafodd ei baratoi o gofio am dair blaenoriaeth strategol y Cyngor sef - Economi (adeiladu economi gref), Pobl (hyrwyddo annibyniaeth a bywyd cadarnhaol i bawb) a Lle (creu cymdogaethau lle mae pobl yn falch o fyw a gweithio ynddynt).

Trwy gyhoeddi Adroddiad ar Gyflawniad Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2017/18 (Drafft), gall y Cyngor ddangos ei gynnydd yn erbyn y gwaith o gyflawni ei flaenoriaethau strategol y cytunwyd arnynt a hefyd ei ddyletswyddau cyfreithiol o ran Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Hysbysodd y Prif Weithredwr yr Aelodau fod y Cabinet wedi trafod yr Adroddiad ar Gyflawniad Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2017/18 (Drafft) yn ystod ei gyfarfod ar 18 Gorffennaf 2017, ac yn amodol ar drafodaeth gan y Cyngor, ynghyd ag adborth gan y Cabinet, bydd fersiwn terfynol o'r Adroddiad ar gael ar wefan y Cyngor ac yn cael ei anfon at bartneriaid a rhanddeiliaid eraill.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** - cymeradwyo Adroddiad ar Gyflawniad Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2017/18 (Drafft) gan gymryd i ystyriaeth adborth y Cabinet yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2017.

ADRODDIAD CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL A LLYWODRAETHOL

38 NEWIDIADAU I AELODAETH CYNGOR IECHYD CYMUNED CWM TAF A'R PWYLLGOR CRAFFU - PLANT A PHOBL IFANC

Yn unol â Chofnod Rhif 2(2.2) o Gyfarfod Blyneddol y Cyngor a gynhaliwyd ar 17 Mai, 2017, dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol wrth yr Aelodau ei fod wedi derbyn hysbysiad gan y Grŵp Llafur ynglŷn â newid i'w aelodaeth gyda Chyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf a Phwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifanc.

PENDERFYNWYD -

1. Bod Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol D.Owen-Jones yn cael ei enwebu i wasanaethu ar gyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf yn lle Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S.Morgans am weddill y tymor, h.y. tan Mai, 2021;

2. Bod Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R.W.Smith cael ei enwebu i wasanaethu ar Bwyllgor Craffu - Plant a Phobl Ifanc yn lle'r Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S.Powderhill.

ADRODDIAD CYFARWYDDWR CYFADRAN Y GWASANAETHAU CORFFORAETHOL A RHENG FLAEN

39 ADOLYGIAD BLYNYDDOL CYLCH RHEOLI'R TRYSORLYS 2016/17

Yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA ar gyfer Rheoli'r Trysorlys a Chod Darbodus CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol drwy Reoliadau a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, mae Cyfarwyddwr Cyfadrann y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen wedi rhoi gwybodaeth i'r Aelodau ar y canlynol: -

- Gweithgarwch y Cyngor o ran Rheoli'r Trysorlys yn ystod 2016/17; a
- Gwir Ddangosyddion Darbodus a Thrysorlys ar gyfer 2016/17

Yn dilyn sylwadau gan Gyfarwyddwr Cyfadrann y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen a thrafodaeth, **PENDERFYNWYD** - nodi cynnwys yr adroddiad.

40 RHYBUDD O GYNNIG

Cafodd y Rhybudd o Gynnig canlynol, wedi'i gyflwyno yn enwau Cyngorwyr y Fwrdeistref Sirol E.Stephens, G.Davies, H.Fychan, J.Williams, L.Jones, S.Rees-Owen, M.Weaver, J.Davies, J.Cullwick, S.Evans-Fear, E.Webster, A.Chapman, P.Jarman, K.Morgan, D.Grehan, A.Cox, W.Jones a D.Macey ei dderbyn gan y Swyddog Priodol yn unol â pharagraff 10.1(b) Rhan 4 o Gyfansoddiad y Cyngor:-

"Bydd y Cyngor yma'n cefnogi mewn egwyddor, yn amodol ar Adroddiad Swyddog, darparu cynnyrch glanweithiol yn rhad ac am ddim, megis tamponau a thyweli, ym mhob Ysgol Uwchradd yn y Sir fel cydnabyddiaeth eu bod mor hanfodol â phapur fŷ bach ar gyfer hylendid personol disgyblion benywaidd.

Nid yn unig bydd yr adroddiad yn cwmpasu cost y ddarpariaeth, a fydd yn cael ei thalu'n ganolog, ond y buddion o ran hyrwyddo urddas, cydraddoldeb, iechyd a lles a'r effaith ar addysg mewn sir sydd â nifer uchel o'i ddisgyblion yn byw mewn tloidi. "

Yn y cyfarfod, cyhoeddodd y Dirprwy Faer, yn unol â pharagraff 10.4.1 Rhan 4 Cyfansoddiad y Cyngor bod y gwelliant canlynol wedi'i dderbyn oddi wrth Gyngorwyr y Fwrdeistref Sirol S.Evans a J.Harries: -

"Bydd y Cyngor yma'n ymchwilio i argaeledd cynnyrch glanweithiol yn rhad ac am ddim, megis tamponau a thyweli, ym mhob Ysgol Uwchradd yn y Sir fel cydnabyddiaeth eu bod mor hanfodol â phapur fŷ bach ar gyfer hylendid personol disgyblion benywaidd.

Gofyn bod adroddiad llawn yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc sy'n ystyried argaeledd cynhyrchion glanweithiol yn ysgolion Rhondda Cynon Taf ac, os yw'n briodol, cyflwyno argymhellion ar gyfer y Cabinet mewn perthynas ag urddas, cydraddoldeb, iechyd a lles a'r effaith ar addysg mewn sir sydd â nifer uchel o'i ddisgyblion yn byw mewn tloidi. "

Yn dilyn trafodaeth faith ar y mater hwn ac yn dilyn pleidlais o blaid addasu'r Rhybudd o Gynnig a ddaeth yn brif Gynnig, PENDERFYNWYD - fabwysiadu'r Addasiad i'r Rhybudd o Gynnig fel yr isod: -

"Bydd y Cyngor yma'n ymchwilio i argaeledd cynnyrch glanweithiol yn rhad ac am ddim, megis tamponau a thyweli, ym mhob Ysgol Uwchradd yn y Sir fel cydnabyddiaeth eu bod mor hanfodol â phapŵr bach ar gyfer hylendid personol disgyblion benywaidd.

Gofyn bod adroddiad llawn yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc sy'n ystyried argaeledd cynhyrchion glanweithiol yn ysgolion Rhondda Cynon Taf ac, os yw'n briodol, cyflwyno argymhellion ar gyfer y Cabinet mewn perthynas ag urddas, cydraddoldeb, iechyd a lles a'r effaith ar addysg mewn sir sydd â nifer uchel o'i ddisgyblion yn byw mewn tloidi. "

MATER BRYS - ADRODDIAD AR Y CYD CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL A LLYWODRAETHOL A CHYFARWYDDWR GWASANAETH Y CABINET A CHYSYLLTIADAU CYHOEDDUS

Hysbysodd y Dirprwy Faer Aelodau, oherwydd amgylchiadau arbennig h.y. yr angen i ymateb i ddogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru erbyn 10 Hydref 2017, bydd adroddiad ar y cyd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol a Chyfarwyddwr Gwasanaeth y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus yn cael ei ystyried yn y cyfarfod hwn.

41 DIWYGIO ETHOLIADOL YM MAES LLYWODRAETH LEOL YNG NGHYMURU- DOGFEN YMGYNGHORI

Yn eu hadroddiad ar y Cyd, gofynnodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol a Chyfarwyddwr Gwasanaeth y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus am gymeradwyaeth y Cyngor i sefydlu Gweithgor y Cabinet a Gweithgor o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu i ystyried y papur ymgynghori a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 18 Gorffennaf 2017 mewn perthynas â Diwygio Etholiadol ym maes Llywodraeth Leol yng Nghymru fel bod modd i'r Cyngor dderbyn sylwadau gan Aelodau'r ddau Weithgor a fydd yn sail i ymateb y Cyngor erbyn y dyddiad cau o 10 Hydref, 2017; **PENDERFYNWYD** - yn unol â hynny.

S.POWDERHILL

DIRPRWY FAER

Daeth y cyfarfod i ben am 7pm.

Mae'r cofnodian hyn yn amodol ar gymeradwyaeth yng nghfarfod priodol nesaf y Pwyllgor